# Derec Dyfalbarhau

Un bore braf o haf, roedd Derec a Gwyneth wrthi'n brysur yn pacio ar gyfer bore prysur yn y pwll nofio. Roedd gan y ddau ohonyn nhw wers nofio. Roedd gan Derec dipyn bach o ofn ond doedd o ddim eisiau i Gwyneth wybod bod ganddo ofn y pwll nofio. “Barod Derec, i ffwrdd a ni!” dywedodd Gwyneth.

Yn hwyrach ymlaen, cyrhaeddodd Derec a Gwyneth pwll nofio Yr Wyddgrug. Plymiodd Gwyneth i'r dŵr a chychwyn nofio fel morfil yng nghanol y môr. Neidiodd Derec i mewn ond sylweddolodd nad oedd o'n gallu nofio cystal â Gwyneth. “Paid â phoeni Derec. Rhaid i ti ymarfer llwyth i nofio fel pysgodyn môr” dywedodd Gwyneth.

Penderfynodd Derec ddal ati i ymdrechu i nofio fel Gwyneth. “Dydy hwn ddim yn hawdd” meddyliodd Derec. Ond ar ôl ymarfer am fisoedd ac heb rhoi gorau iddi, sylweddolodd Derec ei fod o rŵan yn gallu nofio fel pysgodyn môr. “Hwre!” gwaeddodd Derec dros y lle. Roedd Derec rwan wrth ei fodd yn nofio.